# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

## RHAN 7

UNO AC AILSTRWYTHURO PRIF ARDALOEDD

## PENNOD 1

UNO PRIF ARDALOEDD YN WIRFODDOL

*Rheoliadau uno*

### 125 Cynghorau cysgodol a gweithrediaethau cysgodol

(1) Rhaid i reoliadau uno ddarparu y bydd cyngor cysgodol ar gyfer y brif ardal newydd.

(2) Rhaid i gyngor cysgodol fod yn gyngor cysgodol etholedig oni fo Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol darparu y bydd cyngor cysgodol dynodedig.

(3) Mae cyngor cysgodol etholedig—

(a) yn cynnwys y cynghorwyr a etholir yn yr etholiad cyffredin cyntaf ar gyfer cynghorwyr i'r prif gyngor newydd, a

(b) yn cael ei sefydlu ar y pedwerydd diwrnod ar ôl yr etholiad hwnnw, pan fydd y cynghorwyr hynny yn llenwi eu swyddi fel aelodau cysgodol.

(4) Mae cyngor cysgodol dynodedig—

(a) yn cynnwys holl aelodau'r cynghorau sy'n uno, a

(b) yn cael ei sefydlu ar y dyddiad a bennir yn y rheoliadau uno fel y dyddiad pan fydd yr aelodau hynny yn llenwi eu swyddi fel aelodau cysgodol.

(5) Rhaid i'r rheoliadau uno wneud darpariaeth—

(a) i’r cyngor cysgodol benodi gweithrediaeth gysgodol, ar ffurf gweithrediaeth arweinydd a chabinet,
(b) yn achos cyngor cysgodol dynodedig, sy’n pennu cyfansoddiad y weithrediaeth gysgodol,
(c) sy’n pennu swyddogaethau’r cyngor cysgodol a’r weithrediaeth gysgodol, ac ynglŷn ag arfer y swyddogaethau hynny, yn ystod y cyfnod cysgodol, a
(d) ynglŷn ag ariannu’r cyngor cysgodol.

(6) Caiff darpariaeth a wneir yn unol ag is-adran (5)(d) roi swyddogaethau i gyngor sy’n uno, gan gynnwys mewn perthynas â gweinyddu cyllid y cyngor cysgodol.

(7) Yn is-adran (5)(c), ystyr y “cyfnod cysgodol” yw’r cyfnod—
(a) sy’n dechrau â’r dyddiad yr awdurdodir neu y gwneir hi’n ofynnol yn gyntaf i’r awdurdod cysgodol arfer unrhyw swyddogaethau yn unol â’r rheoliadau uno, a
(b) sy’n dod i ben yn union cyn y dyddiad trosglwyddo.

(8) Rhaid i’r rheoliadau uno ddarparu mai cyngor cysgodol etholedig yw’r cyngor cysgodol ar gyfer y brif ardal newydd hyd at y dyddiad trosglwyddo (ac o’r dyddiad hwnnw mae’n brif gyngor, ac mae ganddo holl swyddogaethau’r prif gyngor, ar gyfer y brif ardal newydd; ac mae’r weithrediaeth gysgodol yn weithrediaeth, ac mae ganddi holl swyddogaethau’r weithrediaeth, ar gyfer y prif gyngor).

(9) Yn achos cyngor cysgodol dynodedig, rhaid i’r rheoliadau uno ddarparu—
(a) mai’r cyngor cysgodol dynodedig yw’r cyngor cysgodol ar gyfer y brif ardal newydd hyd at y cyfnod cyn etholiad, a
(b) yn ystod y cyfnod cyn etholiad, bod y cyngor cysgodol yn brif gyngor, a bod ganddo holl swyddogaethau’r prif gyngor, ar gyfer y brif ardal newydd; a bod y weithrediaeth gysgodol yn weithrediaeth, a bod ganddi holl swyddogaethau’r weithrediaeth, ar gyfer y prif gyngor.

(10) Yn is-adran (9), ystyr “cyfnod cyn etholiad” yw’r cyfnod—
(a) sy’n dechrau â’r dyddiad trosglwyddo, a
(b) sy’n dod i ben yn union cyn y pedwerydd diwrnod ar ôl cynnal yr etholiad cyffredin cyntaf ar gyfer cynghorwyr i’r prif gyngor newydd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 125 mewn grym ar 21.1.2021, gweler **a. 175(1)(f)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Adran 125.